

Cefnogi cynnydd disgyblion: dadansoddiad manwl o ddatblygiad cyfannol un plentyn, gan gyfiawnhau'r camau dysgu nesaf.

Trafodir yn yr aseiniad hwn ymchwil i mewn i sgiliau un plentyn yn benodol yn ogystal ar ffordd ymlaen i sicrhau datblygiad dilynol o fewn fframwaith y Cyfnod Sylfaen.

Cynhaliwyd yr ymchwil o fewn ysgol gynradd ffrwd ddeuol sydd wedi'i leoli ar gyrrau tref asennol yn Ne-orllewin Cymru. Ffurfiwyd yr ysgol yn 2017 pan unodd ysgol babanod ac ysgol iau, erbyn hyn, darparwyd yr ysgol am ddisgyblion 3-11 oed. Mae 10 dosbarth o fewn yr ysgol yn cynnwys chwe dosbarth prif ffrwd cyfrwng y Saesneg a phedwar dosbarth prif ffrwd cyfrwng y Gymraeg.

Mae yn 258 o ddisgyblion ar y gofrestr gyda 84 ohonynt yn mynychu'r dosbarthiadau cyfrwng y Gymraeg ar weddill yn y dosbarthiadau Saesneg. 32.8% yw nifer y disgyblion sydd yn gymwys am brydau bwyd am ddim sydd yn uwch na'r cyfartaledd cenedlaethol (Estyn, 2016 a Llywodraeth Cymru, 2018).

Mae'r disgybl dan sylw yn fachgen 5 mlwydd oed o fewn y dosbarth meithrin / derbyn. Yr ifancaf o dri yw'r disgybl, gydag un chwaer ac un brawd. Er bod ei rhieni yn gallu siarad Cymraeg, Saesneg yw'r iaith gyntaf y cartref. Er mai ysgol ffrwd ddeuol yw'r ysgol a mynychwyd y disgybl ffocws dosbarth ffrwd Cymraeg yr ysgol, Saesneg yw'r iaith a chlywir yn siarad o fewn y dosbarth ac ar iard chwarae'r ysgol. Gweithiwyd y disgybl ffocws o fewn y grŵp gallu is y dosbarth. Tri phlentyn y dosbarth derbyn sydd yn y grŵp gallu is gyda dau blentyn galluog y dosbarth meithrin yn ymuno'r grŵp wrth fynychu ambell dasg. Nid yw'r plentyn ffocws ar brydiau bwyd am ddim felly nid yw'n cael ei hystyried o fewn sut mae'r grant datblygiad plentyn yn cael ei wario. Does dim pryderon am ddatblygiad y plentyn ffocws, er hynny, mae ef yn rhan o grwpiau Chatt sydd yn ffocysu ar ddatblygu sgiliau llafaredd a chyfathrebu plant.

Gan mae casglu data trwy arsylwi ar, a rhyngweithio gyda phlentyn mae'r ymchwil yma'n cwmpasu, ystyrir materion moeseg trwy gydol yr amser. Ystyriwyd sawl ddogfen wrth feddwl yn foesegol tra chynnal yr ymchwil megis; Canllawiau moesegol ar gyfer Ymchwil Addysgiadol BERA (2018), Cod Ymarfer Moeseg ac Integredd Ymchwil PCYDDS (2017-2020), Deddf Diogelu Data (2018) a Chanllawiau'r Cyngor Gweithlu Addysg (2018). Ymofynnwyd caniatâd pennaeth yr ysgol cyn cychwyn ar yr ymchwil (Gweler atodiad 1). Datganir yn ganllawiau BERA (2018),

yr angen i sicrhau dealltwriaeth y cyfranogwyr o fwriadau'r ymchwil. Trafodir gyda'r plentyn o flaen llaw gan esbonio'r natur yr ymchwil yn ogystal ar hawl sydd ganddo i dynnu nôl ar unrhyw adeg mewn ffordd addas a deallus i'r disgybl. Danfonwyd llythyr yn esbonio'r broses at rieni'r disgybl ffocws gan ofyn am ganiatâd i gynnal yr ymchwil (gweler atodiad 2). Rhoddwyd y disgybl ffocws caniatâd ar lafar gan ddweud eu bod eisiau "helpu Miss Evans gyda'i gwaith". Cadwir anhysbysrwydd y disgybl drwy gadw'n ddiennw trwy'r adroddiad a'i gyfeirio ato fel y disgybl ffocws.

Datganir Llywodraeth Cymru (2008) y pwysigrwydd o arsylwi ar blant er mwyn nodi eu cynnydd, eu diddordebau ac i gynllunio cwricwlwm addas, effeithiol i gefnogi'r camau nesaf yn eu datblygiad. Dibyn yr aseiniad hwn i'w i gasglu data er mwyn asesu galluoedd plentyn a chynllunio ffordd ymlaen i sicrhau datblygiad orau posib iddo. Mae arsylwi yn hanfodol felly yn y broses.

Y dull a ddefnyddiwyd i gasglu data ar y disgybl ffocws ydy'r dull mosaig. Dibyn y dull yw datblygu gwasanaethau plant wrth ddefnyddio sawl dechneg i gasglu data megis arsylwadau, ffotograffau, esiamplau o waith a chyfweliadau gyda'r plentyn a'r athrawes dosbarth. Mae'r darnau gwahanol o ddata a gasglwyd yn cael eu rhoi at ei gilydd er mwyn creu darlun clir o'r plentyn a sut maent yn ei hoffi dysgu orau (Clarke a Moss, 2011). Mae cynnwys llais y plentyn yn elfen fawr o'r dull gyda ffocws clir a gwrando'n astud ar nid ond beth sydd gan y plentyn i ddweud ond beth maent yn cyfleu trwy ei luniau ai chwarae. Gwelwyd Estyn (2016) bod yna manteision clir i ddysgwyr ac ysgolion wrth iddyn nhw gefnogi llais y plentyn, ymhellach, mae Erthygl 12 o Gonfensiwn y Cenhedloedd Unedig a'r Hawliau Plentyn yn nodi bod gan yr hawl i bob plentyn roi ei barn ar unrhyw ddigwyddiad a gallant effeithio arnynt (Cyngor Sir Gar, 2018). Er hynny, canfyddadwy Alderson (2008) sawl rheswm heriol o gasglu barn plant ifanc. Maent yn cynnwys, diffyg amser, diffyg hyder a diffyg sgiliau trin a thrafod gyda phlant. Gan mai dilyn diddordebau a barn y disgybl ffocws mai'r dull mosaig yn penodi, ni ddylai'r rhesymau fod yn broblem, er cytunwyd fod angen sicrhau ddigon o amser i arsylwi'r disgybl ffocws, yn enwedig gan mai un disgybl sydd o dan sylw. Yn ogystal â phwysigrwydd llais y plentyn, adroddir gan Rinaldi (2006) y pedagogeg o wrando sef i wrando wrth ddefnyddio'r synhwyrau i gyd, i wrando, i glywed ac i fod yn agored i bawb. Caniateir dull mosaig hyn gan mai arsylwi ar a gwrando ar y disgybl ffocws wrth sail sawl agwedd o'i ddiwrnod ysgol ac wrth sail sawl sefyllfa wahanol. Dywed Dewey (1938) nid yw arsylwi yn unig yn ddigon i roi darlun

cyfan o alluoedd plant, felly dewiswyd defnyddio'r dull mosaig er mwyn casglu data amryw ar y disgybl ffocws. Caniateir cyfleoedd i arsylwi mewn amryw o ffurf ynglŷn â chynnwys barn y disgybl yn gryf o ran trafodaeth yn ogystal â chasglu tystiolaeth o waith y disgybl a lluniau digidol. Tystiwyd ei fod yn ddull hyblyg sydd ddim yn amharu ar drefn ddyddiol dosbarthiadau.

Wrth drafod sgiliau a datblygiad y disgybl ffocws ystyrir y model ASG (Agweddau, Sgiliau a Gwybodaeth) a chrëwyd gan Clarke a Moss (2011). Cafodd y dull ei ddatblygu gan Clarke a Moss (2011) er mwyn ymchwilio ac ystyried barn pobl a phlant ifanc. Yn yr un modd ar ddull mosaig, ystyrir llais y dysgwyr wrth ddefnyddio'r model ASG. Wrth ddilyn y model, ystyrir agweddau'r disgybl ffocws tuag at ddysgu, megis ei diddordeb ac awydd i lwyddo yn ogystal â'i chwilfrydedd. Ystyrir sgiliau'r disgybl ffocws megis ei sgiliau cymdeithasol a chyfathrebu ac yn olaf, ystyrir gwybodaeth megis ei dealltwriaeth o'r meysydd gwahanol y fframwaith ddysgu. Yn ôl Nottingham (2016), bydd ffocysu ar agwedd, sgiliau a gwybodaeth plant yn hytrach na ffocysu ar wybodaeth yn unig, yn cefnogi plant ar sut i ddysgu ac yn ei thro yn ei ddatblygu'n dysgwyr medrus, annibynnol. Trwy wneud hynny cefnogir dibenion y cwricwlwm newydd â awgrymwyd gan Donaldson (2015) yn ei hadroddiad Dyfodol Llwyddiannus. Felly, gall ddweud ei bod yn arfer da i ddefnyddio'r model ASG wrth gynllunio a darparu cwricwlwm newydd yng Nghymru.

Dadansoddiad data disgybl ffocws

Casglwyd data ar y disgybl ffocws ar draws 5 maes dysgu, datblygiad mathemategol, datblygiad personol a chymdeithasol, lles ac amrywiaeth ddiwylliannol, iaith, llythrennedd a chyfathrebu, datblygiad corfforol a datblygiad creadigol. Amlygwyd y disgybl ffocws sawl elfen o ddeilliant 2 o fewn y meysydd datblygiad mathemategol, iaith a chreadigol, ac agweddau o ddeilliant 3 o fewn y meysydd personol a chymdeithasol a corfforol.

I sicrhau asesiad manwl, dadansoddwyd y meysydd dysgu ar wahân.

Sgiliau iaith, Llythrennedd a Chyfathrebu

Amlygwyd y disgybl ffocws agweddau deilliant 2 cadarn o ran ei sgiliau iaith. Maent yn sgwrsio'n syml ac yn ddeallus gyda'i chyfoedion ac oedolion o fewn yr ysgol. Er hynny, mae'n tueddu o sgwrsio'n Saesneg ac mae angen ei hatgoffa i siarad Cymraeg. Dangoswyd sgiliau sylfaenol o sgwrsio'n Gymraeg gan ddefnyddio brawddegau syml er ei fod yn gadael ambell i

gysylltair allan. Gofynnwyd yn aml “Gai tŷ bach?” yn lle “Gai fynd i’r tŷ bach?”. Ymatebwyd yn synhwyrol i gyfarwyddiadau dyddiol y dosbarth ynglŷn â chyfarwyddiadau syml, newydd wrth fynychu gweithgareddau o fewn y ddarpariaeth barhaus. Arsylwyd y disgybl ffocws yn ddyddiol yn mwynhau wrth ymuno â chaneuon a rhigymau cyfarwydd ag ymdrechodd yn arbennig wrth ymuno gyda brawddegau ailadroddus yn stori newydd a gyflwynwyd i’r dosbarth cyfan. Dangosodd agwedd bositif wrth fynychu tasg ffocws o ddilyn map ymarferol y stori yn yr ardal allanol. Wrth gyfweld ar ddisgybl ffocws, datganwyd ei fod yn hoff iawn o fod yn yr ardal allanol, tystiwyd hwn wrth iddo gwblhau’r dasg map stori ymarferol. Defnyddiodd ei sgiliau cyfathrebu a datrys problemau’n effeithiol er mwyn trafod wrth gefnogi a deall cefnogaeth ei ffrindiau wrth iddynt geisio cofio trefn y stori’n gywir. Adeiladodd ar ei gwybodaeth flaenorol er mwyn trefnu a ddilyn y map yn gywir wrth ailadrodd yr un patrymau brawddeg a ddysgwyd o gyflwyniad y stori. Ymhellach, yn yr un dasg, dewiswyd a ddefnyddiwyd sialc i greu marciau i gynrychioli’r môr ar yr iard. Tystiwyd hwn i fod yn sgil deilliant 2 wrth iddo ddefnyddio amrywiaeth o offer i wneud marciau (Llywodraeth Cymru, 2008). Yn ystod un cyfweiliad gyda’r disgybl ffocws gofynnwyd iddo dynnu llun o rywbeth oedd yn ei wneud yn hapus. Amlygodd ef agweddau deilliant 3 wrth ddal y pensil yn briodol yn ei law dde (Gweler atodiad 3) a thynnu llun o dŷ yn cynnwys, ef, ei brawd ai chwaer a chi. Gyda pheth cymorth i swnio geiriau, ysgrifennodd brawddeg syml o dan y llun (Gweler atodiad 3). Eto, dangosodd agweddau o ddeilliant 3 wrth dangos ymwybyddiaeth bod seiniau ac ystyr yn perthyn i symbolau ysgrifenedig ynglŷn â gwahaniaethu rhwng llythrennau (Llywodraeth Cymru, 2008). O fewn sesiynau darllen grŵp, dangosodd y disgybl ffocws ei fod yn gwahaniaethu rhwng lluniau a sgrïpt wrth ddilyn y stori. Gyda chymorth gall ddarllen geiriau llafariad, cytsain, llafariad syml megis mat, tap, cap.

Datblygiad Mathemategol

Amlygwyd y disgybl ffocws agweddau cadarnhaol o ddeilliant 2 ac yn dechrau dangos sgiliau deilliant 3 o fewn ei ddatblygiad mathemateg. Maent yn ymuno gyda’i chyfoedion wrth gyfrif rhwng 1 - 10 yn hyderus ac yn dechrau magi hyder wrth gyfrif i fyny at 20 yn beiriannol. Awgryma Llywodraeth Cymru (2008) bod plant yn elwa trwy brofiadau ymarferol ac yn dysgu a datblygu trwy chwarae. Dangoswyd hwn yn wrth i’r disgybl ffocws ddewis chwarae lego o fewn ardal adeiladu'r dosbarth. Yn y lego roedd cistiau trysor wedi’i labelu gyda rhifau gwahanol rhwng 0 a 10. Nod y gweithgaredd oedd adnabod y rhifolion gwahanol ai

werthoedd trwy ychwanegu'r nifer cywir o blociau lego i'r cistiau. Cyfrifodd y disgybl ffocws y nifer cywir i'r cistiau 0 - 8 gan ddweud "zero is dim byd", dangosodd ei ddealltwriaeth o'r cysyniad o sero yn werth dim. Hefyd trafododd bod angen "un mwy" wrth gyfri niferoedd cywir, sydd yn agwedd arall o ddeilliant 2 yn faes dysgu mathemateg. Profwyd ei diddordeb a mwynhad o fod allan yn yr ardal allanol wrth iddo fynychu tasgau rhifedd. Yn defnyddio trysor yn yr ardal tywod roedd yn gallu cyfrifo cyfanswm o drysor aur a thrysor arian trwy ei didoli ac wedyn ei adio. Wrth drafod gyda'r disgybl ffocws am beth oedd wedi gwneud, datganir ei fodd ddim yn gallu gwneud adio yn ei lyfr gwaith ond roedd ên gallu gwneud adio gyda gwrthrychau yn ymarferol. Awgryma hyn efallai mai adio wrth ddefnyddio rhifolion yn achosi anhawster iddo, ond mae defnyddio gwrthrychau'n ymarferol yn haws iddo. Datganir Ball (2002), mai defnyddio deunyddiau diriaethol yn hanfodol wrth ddatblygu a gwella sgiliau mathemategol plant. Trwy dangos ei allu o adio'n syml, cyfrif y tu hwnt i 10 ynglŷn ag adnabod bod sero'n golygu dim byd, tystiwyd bod y disgybl ffocws ei bod yn dechrau amlygu sgiliau mathemateg deilliant 3, sydd yn ddisgwyliedig o fewn y dosbarth derbyn.

Datblygiad Personol a Chymdeithasol, Lles ac Amrywiaeth Ddiwylliannol (PCLLA)

Yn ystod yr wythnosau byr o arsylwi'r disgybl ffocws, amlygir ei fod yn gweithio ar ddeilliant 3 o ran ei ddatblygiad PCLLA. Dangosir ei fod yn dechrau tyfu'n fwy annibynnol o ran safbwynt gwaith wrth iddo gasglu adnoddau priodol oedd angen a chadw ar dasg pan maent yn hyderus i wneud. Yn lle gofyn am gyngor i gwblhau gwaith, bydd ef weithiau yn gofyn am fynd at weithgaredd gwahanol. Gall hwn awgrymu ei fod ddim eisiau dangos y diffyg dealltwriaeth neu fod ei agwedd at lwyddo yn y tasgau penodol yma yn isel. Tra arsylwi arno yn mynychu gweithgaredd chwarae rôl, dangosodd aeddfedrwydd a sensitifrwydd pan oedd plentyn newydd y dosbarth wedi tynnu tegau wrtho gan sgerechain yn uchel. Ymatebodd y disgybl ffocws wrth ddweud yn dawel "don't scream, we can share the toys, we rhannu in our school". Roedd y plentyn arall yn newydd i'r dosbarth ac nid oedd wedi mynychu ysgol o blaen, dangosodd elfennau o anghenion ychwanegol o ran cymdeithasu. Profwyd y disgybl ffocws ei allu i arsylwi ar ac adnabod anghenion pobl eraill. Cefnogwyd hyn ymhellach wrth iddo esbonio beth sy'n gwneud ffrind da ar ôl wers oedd yn seiliedig ar "y Samuriad Trugarog". Nodwyd yr angen o fod yn "neis i ffrindiau a phawb" a bod "dim pawb yn fawr yn ysgol eto" gan gyfeirio at blant newydd y meithrin nad oedd wedi dysgu rheolau'r ysgol eto. Awgrymodd y disgybl ffocws bod plant y derbyn yn cefnogi plant y meithrin trwy fodelu modd priodol o

ymddwyn yn yr ysgol ac aeth ymlaen i esbonio ymddygiadau gwahanol o fewn yr ysgol (gweler atodiad 4). Tystiwyd hwn bod y disgybl ffocws yn deall yr angen i ymddwyn yn briodol o fewn sefyllfaoedd gwahanol. Yn ystod gwrs plannu blodau, trafodwyd y disgybl ffocws beth oedd angen ar blanhigion i dyfu. Dangosodd dealltwriaeth bellach wrth iddo fynychu tasg trefnu lluniau tyfiant blanhigyn gan gefnogi disgybl arall oedd yn cael anhawster trefnu'r lluniau (Gweler atodiad 5). Mae'r disgybl ffocws yn dangos parch pellach at bethau byw drwy ddyfrio'r planhigion tu allan yn aml a thrwy fod yn ofalgar am unrhyw drychfilod maent yn dod ar draws yn yr ardal allanol.

Datblygiad Corfforol

Yn grynodol, dangosir y disgybl ffocws agweddau deilliant 3 o ran ei ddatblygiad corfforol. O fewn gwrs benodol addysg gorfforol a arsylwyd, dangoswyd y disgybl ffocws rheolaeth dda o'r corff gan neidio o wrthrychau isel a glanio'n ddiogel ar ddwy droed. Rheolaeth dda o ofod sydd ganddo wrth ystyried disgyblion eraill ynglŷn ag offer oedd o gwmpas y neuadd. Ar ôl trafod gyda'r athrawes dosbarth, darganfyddwyd bod y disgybl ffocws wedi gwella o ran sgiliau rheoli corff yn ystod y misoedd diwethaf, yn cynnwys taflu a dal bagiau ffa a pheli a rheoli beic cydbwysedd yn hyderus o gwmpas rhwystrau. Profwyd yn atodiad 5 ei fod yn gallu rheoli siswrn yn hyderus wrth dorri papur a hefyd, wrth chwarae lego, dangosodd y sgil o drin adnoddau'n briodol gan roi at ei gilydd yn gywir. Dangoswyd atodiad 3 sut mae'r disgybl ffocws yn gallu trin pensil yn briodol a thynnu llun person sydd â phen, coesau a chorff (Llywodraeth Cymru, 2008).

Datblygiad Creadigol

O fewn maes dysgu creadigol, dangoswyd y disgybl ffocws agweddau cadarnhaol o ddeilliant 2. Archwiliwyd y disgybl ffocws yn yr ystafell storio am adnoddau a deunyddiau gwahanol i gynrychioli adrannau gwahanol o stori. Er enghraifft, dewisodd mat garw melyn i gynrychioli'r tywod a ddefnyddiwyd sialc las i dynnu llun tonnau i gynrychioli'r môr. Gan dangos agwedd bositif a chwilfrydedd at y dasg aeth ati i gyd weithio gyda'i ffrindiau i greu map stori ei hun a oedd ag ystyr benodol iddo. Yn ystod sesiwn creadigol, dewisodd y disgybl ffocws offerynnau gwahanol a oedd yn gallu cynrychioli synau gwahanol i'r gan "A fuoch erioed yn morio". Dangosodd diddordeb a mwynhad wrth arbrofi gydag offerynnau gwahanol a ddefnyddiodd ei sgiliau blaenorol o drin offerynnau i'w chwarae'n effeithiol. O fewn y dosbarth, arsylwyd ar

y disgybl ffocws yn defnyddio papur a llinyn i greu barcutiaid gyda'i chyfoedion, roedd hwn yn dasg hollol annibynnol gyda'r disgybl yn defnyddio'i gwybodaeth ei hun wrth greu. Yn yr ardal clai, crëwyd llongau mor ladron. Gofynnodd am ddeunyddiau gwahanol i'w ddefnyddio er mwyn creu ffenestri i'r llong a ddefnyddiodd ffyn loli a phapur i greu hwyl. Trwy gydol y gweithgaredd dangosodd y disgybl ffocws balchder yn ei gwaith ac roedd ganddo awydd cadarn i lwyddo. Yn ystod y dasg yma, gwelwyd y model ASG yn oleuni trwyddo ym mhob agwedd. Roedd gan y disgybl yr agwedd, y sgiliau ar wybodaeth i lwyddo yn ei dasg (Nottingham, 2016).

Y ffordd ymlaen

Yn ystod sgysiau anffurfiol a chyfweliadau gyda'r disgybl ffocws, daeth i'r amlwg ei hoffter at weithgareddau ymarferol. Gofynnwyd iddo ddefnyddio dyfais technoleg i dynnu lluniau o beth mae'n hoffi gwneud yn y dosbarth ar ardal allanol (Gweler atodiad 6). Tynnwyd lluniau o'r ardaloedd tywod a dŵr, y llwyfan allanol a'r caffi chwarae rôl. Gydag Estyn (2014) a Llywodraeth Cymru (2008) yng nghytûn bod plant yn dysgu gorau trwy brofiadau uniongyrchol, gall ddefnyddio'r wybodaeth yma am y disgybl ffocws er mwyn cynllunio a darparu gweithgareddau a phrofiadau ymarferol i ddatblygu i'w sgiliau yn drawsgricwlaidd. Wrth gynllunio'n fanwl i gynnwys diddordebau a llais y disgybl ffocws o fewn ei haddysg, gall cefnogi agweddau'r model ASG (Nottingham, 2016). O'r cychwyn bydd ganddo agwedd positif a'r awydd i lwyddo gan mai diddordeb gydag ef yn y gweithgaredd, gall defnyddio ac adeiladau ar sgiliau blaenorol yn ogystal â datblygu ei gwybodaeth drawsgricwlaidd.

Y ffordd ymlaen - iaith, llythrennedd a chyfathrebu

Gyda'r disgybl ffocws yn dechrau dangos agweddau o ddeilliant 3 o fewn y maes iaith, y ffordd ymlaen yw adeiladu ar ei sgiliau parod er mwyn ei ddatblygu'n ymhellach i sicrhau cynnydd dilynol o fewn y deilliannau dysgu. Er mwyn cymryd mantais o ddiddordeb disgybl ffocws mewn storiâu a ddarllenwyd iddynt, a'i hoffter at weithgareddau ymarferol, gall ddefnyddio dull Pie Corbett wrth gyflwyno stori newydd. Cefnogir dull Pie Corbett datblygiad llythrennedd cyfan blant, yn dechrau wrth ddefnyddio ystumiau gwahanol i ddysgu stori a'i hailadrodd o gof. Mae adrodd stori gyfarwydd yn sgil deilliant 3 (Llywodraeth Cymru, 2018). Tystiwyd gan ysgolion bod cyfradd ddatblygiad plant o fewn eu sgiliau llythrennedd wedi dybli ers defnyddio'r dull (Talk for writing, 2019). Mae modelu iaith a brawddegau cywir yn ffordd

effeithiol o ddatblygu sgiliau llafaredd plant. Adroddir Estyn (2018) bod plant yn gwneud “cynnydd rhagorol o ran deall a defnyddio'r Gymraeg” gydag oedolion sydd yn modelu'r iaith gywir. Trwy fodelu brawddegau syml, cywir yn ogystal â pharhau i fynychu sesiynau rhaglen Chatt, gall sgiliau llafaredd y disgybl ffocws ddatblygu ac yn ei thro bydd ei sgiliau ysgrifenedig yn gwella. Er mwyn sicrhau ffurfiant cywir llythrennau, bydd angen darparu cyfleoedd gwneud marciau yn yr ardaloedd darpariaeth barhaus, yn enwedig yn yr ardal allanol. Eto, bydd modelu'r ffurf gywir yn sicrhau dealltwriaeth a datblygiad y disgybl ffocws. Gall y disgybl ffocws dilyn rhaglen ddarllen tric a chlic er mwyn ddatblygu eu sgiliau darllen a sillafu. Mae rhaglen Tric a Chlic yn gynllun ffoneg synthetig sydd yn cefnogi datblygiad sgiliau darllen a sillafu plant trwy uno seiniau ai segment nhw (Canolfan Peniarth, 2015). Gan fod y disgybl ffocws yn gwahaniaethu rhwng llythrennau ac wedi dechrau darllen geirfa llafariad, cytsain, llafariad, gallaf ef symud ymlaen, gyda chymorth, i ddarllen brawddegau syml yn cynnwys geiriau aml ddefnydd megis mae, dyma ac rydw. Trwy wneud hyn datblygir sgiliau ysgrifennu brawddegau syml, cywir yn ogystal â sgiliau llafaredd Cymraeg cywir.

Y ffordd ymlaen – Datblygiad mathemategol

I sicrhau cynnydd yn sgiliau mathemategol y disgybl ffocws, gall parhau i ymarfer cyfrif tu hwnt i 10 o fewn sefyllfaoedd gwahanol yn ddyddiol. Hefyd, mae angen dechrau cyfrif ymlaen o rifau penodol. Gall creu cyfleoedd i blant ymarfer ei sgiliau rhifedd fel rhan o'r drefn y dosbarth yn ddyddiol. Er enghraifft, gall athrawon rhoi cyfrifoldebau o gymryd y gofrestr cinio i'r disgyblion gan ofyn iddynt gofnodi a chyfrifo sawl plentyn sydd yn cael cinio a sawl sydd yn cael brechdanau. Gwelwyd fod hwn yn cefnogi'r ffordd mae plant yn dysgu orau wrth roi cyfrifoldebau a phrofiadau uniongyrchol iddynt (Estyn, 2018 a Llywodraeth Cymru, 2008). Gan fod y disgybl ffocws wedi datgan nid yw'n deall y cysyniad o adio symiau syml ar bapur ond maent yn ddigon gymwys wrth wneud yn ymarferol, mae angen cynllunio gweithgareddau a fydd yn adeiladau ar ei sgiliau blaenorol ai ddatblygu'n bellach. Gall ddefnyddio ei hoffter o chwarae yn yr ardal chwarae rôl y dosbarth, y caffi. Gyda chymorth oedolyn gall defnyddio archebion cwsmeriaid i ymarfer adio'n syml. Yn dilyn syniadau Vygotsky o sgaffaldio, fe fydd gweithio gydag oedolyn neu gyd weithio gyda'i chyfoedion yn cefnogi'r datblygiad y disgybl ffocws i symud ymlaen (Bates, 2019) o adio'n defnyddio gwrthrychau ymarferol i gofnodi symiau syml gan ddefnyddio lluniau i ddechrau cyn symud ymlaen i ddefnyddio rhifolion rhwng 1 a 5. Gall ddefnyddio adnoddau mathemategol

numicon i'w gynorthwyo gyda chysyniad o adio yn defnyddio rhifolion. Fe fydd y numicon yn gallu cynrychioli niferoedd gwahanol yn lle defnyddio gwrthrychau diriaethol. O ganlyniad i hyn, fe fydd dal elfen ymarferol yn y dasg adio sydd yn gweithredu fel carreg sarn wrth i'r disgybl magu hyder a dealltwriaeth o fewn y sgil.

Ffordd ymlaen - Datblygiad Personol a Chymdeithasol, Lles ac Amrywiaeth Ddiwylliannol

Cryfhau sgiliau blaenorol sydd angen i sicrhau cynnydd o fewn y maes PCLLA. I gefnogi annibyniaeth bellach o safbwynt gwaith, gall magu hyder y disgybl ffocws i ofyn am gymorth pan fydd angen. Hefyd gall paratoi digon o adnoddau cefnogol i sicrhau llwyddiant o fewn tasgau a gweithgareddau dysgu. Adroddir gan yr Adran Addysg (2018) yr angen o adnoddau cefnogol i sicrhau trosglwyddiad effeithiol o'r cwricwlwm, hefyd, yr angen am adnoddau cefnogol deniadol. Gall ddefnyddio adnoddau deniadol hybu diddordeb pellach y disgybl ffocws, yn enwedig os maent yn creu elfen ymarferol i'r dasg. I ddatblygu sgiliau ychwanegol PCLLA, gall darparu sesiynau a fydd yn hybu parch y disgybl ffocws tuag at eu hamgylchedd. Datganir y disgybl ffocws ar ddiwedd un wers nad oedd yn hoff iawn o dacluso gan nid oedd yn gorfod neud e gartref. Gall ddefnyddio'r ardal allanol i ddechrau, trwy dacluso a brwsio fyny ar ddiwedd pob dydd, trwy wneud hyn yn rhan o arfer ei ddiwrnod ysgol gall hybu'r sgiliau'n naturiol. Eto, bydd y profiadau uniongyrchol yma'n cefnogi disgwyliadau Estyn (2018) a Llywodraeth Cymru (2008).

Y ffordd ymlaen – Datblygiad Corfforol

Dangosir disgybl ffocws cynnydd cadarnhaol o fewn ei ddatblygiad corfforol. Er hynny, tystiwyd yr athrawes dosbarth yr angen i wella'i sgiliau echddygol bras gan sicrhau taclusrwydd yn ei waith ysgrifenedig. Mae ymarfer sgiliau echddygol bras yn cryfhau rheolaeth pensil plant (Liddle, 2018) felly, profwyd ei fod yn hanfodol i wella taclusrwydd ysgrifenedig. Gall ddarparu cyfleoedd eang tu fewn a thu allan y dosbarth i fodoli hyn. Mae defnyddio dyfeisiau digidol yn gallu hybu sgiliau echddygol bras trwy ddefnyddio llygoden i reoli'r cyrchwr ar gyfrifiadau neu bys ar sgrin dyfeisiau eraill. Golygir hyn bod sgiliau echddygol bras yn cael eu datblygu ar y cyd gyda sgiliau cymhwysedd digidol.

Casgliad

Wrth adfyfrio ar yr ymchwil, darganfyddwyd bod cynnwys llais y disgybl a diddordebau'r disgybl yn effeithio ar sut maent yn perfformio neu ddewis ei weithgaredd o fewn yr ardaloedd dysgu. Trwy ganolbwyntio ar yr agweddau yma gall cynllunio a darparu gweithgareddau deniadol a fydd yn hybu datblygiad nid dim ond y disgybl ffocws ond yr holl ddisgyblion er mwyn iddynt gyflawni ei botensial llawn. Hefyd gan gynnwys diddordebau'r disgyblion o fewn ei haddysg gall hybu agwedd bositif at ei gwaith. Cefnogir hyn y model ASG (Nottingham, 2016). Gyda'r agwedd bositif byddant yn defnyddio ac ymarfer ei sgiliau i wella ei gwybodaeth.

Prif ddiben yr ymchwil oedd defnyddio'r model mosaig o gasglu data ar ddisgybl a'i asesu ei alluoedd o fewn cwricwlwm y Cyfnod Sylfaen ac awgrymu ffordd ymlaen posib iddo. Daeth i'r amlwg y nifer o weithgareddau a strategaethau all ddefnyddio i gefnogi cynnydd y disgybl, er hynny, mae'n bwysig cofio nid oes pob plentyn yr un peth ac nid oes pob plentyn yn dysgu yn yr un ffordd. Gyda'r byr amser oedd arsylwi'r plentyn, awgrymwyd y ffordd ymlaen orau posib all ddatgan ar hyn o bryd. Yn sicr bydd arsylwi a rhyngweithio gyda'r disgybl am gyfnod hirach wedi rhoi syniadau mwy cadarn o sut maent yn dysgu orau.

Profwyd y dull mosaig yn un effeithiol i'w ddefnyddio er mwyn casglu amryw o ddata ar un disgybl mewn ffordd ryngweithiol. Rhoddwyd cyfleoedd i ddod i adnabod y disgybl, eu hoff bethau ai chas bethau yn enwedig. Er hynny, teimlwyd ni chaniatâi'r dull dadansoddiad o fwy nag un plentyn ar y tro, sydd yn hanfodol wrth addysgu i fyny at 30 o ddisgyblion mewn un dosbarth. Gyda'r amser byr a baich gwaith enfawr sydd gan athrawon ac oedolion yn ddyddiol, ni chredwyd ei fod yn ddull realistig o fewn bywyd ysgol bob dydd, heb law bod yna staff penodol sydd yn rhydd i ffocysu arno ac adrodd yn ôl ar y darganfyddiadau.

Wrth symud ymlaen cymerwyd mantais o'r profiadau wrth gynnal yr ymchwil. Yn fwy na dim, mae sicrhau llais y plentyn a chynnwys ei diddordebau ymhlith eu haddysg yn ddyddiol yw'r ffordd ymlaen. Nid ond i blant i ddatblygu'n academiaidd ond i sicrhau datblygiad holistig pob plentyn, yn cynnwys ei sgiliau cymdeithasol a sicrhau ei lles a hapusrwydd o fewn yr ysgol.

Atodiad 1



Ynglŷn ag: Aseiniad Myfyrwyr TAR Cynradd: caniatâd a chadarnhad bod gwaith wedi cael ei wneud yn yr ysgol ar gyfer yr aseiniad 'Datblygiad Ysgol a Chynnydd Disgyblion', Haf 2019.

Annwyl fentor dosbarth / uwch fentor ,

Ar gyfer y modwl prifysgol a enwir uchod, gofynnir i hyfforddeion i nodi un dysgwr sydd yn y dosbarth lle maent wedi cael eu lleoli a, dros y cyfnod Profiad Addysgu Proffesiynol, ymchwilio i'w ddysgu yn fanwl. Gallai'r dystiolaeth sydd angen ei chasglu arnynt gynnwys:

- arsylwi;
- gofyn i'r dysgwr nodi mannau/ pethau sy'n ei helpu ef / hi i ddysgu;
- trafod gyda'r disgybl a/ neu'r athro'r hyn sy'n helpu'r disgybl i ddysgu a sut maent yn teimlo am ddysgu;
- casglu samplau o waith a allai ddangos rhywbeth am gynnydd a datblygiad y dysgwr.

Gofynnir iddynt ganolbwyntio ar wybodaeth, agwedd a sgiliau mewn iaith, mathemateg, lles, yn ogystal ag o leiaf dau faes arall o'r cwricwlwm er mwyn cael darlun cyfannol o'r plentyn. Yna, gwnânt awgrymu'r camau nesaf ar gyfer y disgybl a dangos sut caiff y rhain eu cyflawni. Disgwylir i hyfforddeion fod yn annibynnol, pa bryd bynnag mae'n bosibl, wrth ymgymryd â'r gwaith hwn, ac maent wedi cael canllawiau moesegol i'w dilyn (er ein bod ni'n rhagweld caiff y gwaith uchod ei wneud yn unol ag arfer arferol yr ystafell ddosbarth). Gofynnwyd i'r hyfforddeion i beidio â datgelu enwau'r dysgwr na'r ysgol yn eu haseiniadau. Gofynnir i'r myfyrwyr i:

1. Ofyn am ganiatâd ar gyfer gwneud y gwaith hwn (drwy ymgynghori â'r athro dosbarth a'r dysgwr).
2. Ddarparu cadarnhad bod y gwaith archwilio wedi digwydd.

Felly, byddem yn ddiolchgar pe baech yn gallu cadarnhau drwy lofnodi isod bod y myfyriwr wedi gofyn am ganiatâd a bod y tasgau wedi cael eu cynnal.

ENW'R MYFYRIWR/ MYFYRWRAIG (PRINTIWCN OS GWELWCN YN DDA):

KATIE EVANS

ENW'R YSGOL (PRINTIWCH OS GWELWCH YN DDA):

YSGOL Y FELIN

ENW'R UWCH FENTOR / MENTOR DOSBARTH (PRINTIWCH OS GWELWCH YN DDA):

C. Cummins

ENW'R UWCH FENTOR / MENTOR DOSBARTH (LLOFNODWCH OS GWELWCH YN DDA):

C. Cummins

Os oes gennych unrhyw gwestiynau ynglŷn â hyn, yna cysylltwch ag : Arweinydd y Rhaglen
Mathew Jones M.Jones@uwtsd.ac.uk

Diolch yn fawr o flaen llaw

DYLID CYNNWYS COPI WEDI'I LOFNODI YN ATODIAD YR ASEINIAD



Dear Parent/Guardian,

Your child's school is a partner with Yr Athrofa at the University of Wales Trinity Saint David in Carmarthen and Swansea. This school offers placements to students who are learning to be teachers.

The student-teacher in your child's class has been given the task of analysing children's learning so that he/she can consider how he/she would support pupils in making progress. As part of this, student-teachers will be observing the children's learning and asking about what things and places in the school help children learn. This is designed to inform students' own practice and support children's learning.

Any information collected would remain confidential, and both the school and the children would remain anonymous in work produced. The work undertaken would be in line with the University's ethical guidelines. If, at any time, your child does not want to share ideas, they would not be required to do so.

If you are happy for your child to contribute to the project, please complete the parental consent form below and return directly to the school as soon as possible. If you are interested in the outcome of this project or if you have any questions, please contact the University Partnership Office - partnership@uwtsd.ac.uk.

Yours faithfully,

Mathew Jones

Module lead – School Development and Pupil Progress

As Parent/Guardian of..... (pupil name),

I do / do not give consent (please delete) for my child to take part in this project.

Signed.....*M Thomas*.....(Parent/Guardian).

Date.....*5.5.19*.....

Atodiad 3

Atodiad 4

Arsywlad - Disgybl ffocws

Dyddiad - 13/5/19

Grwp - Dosbarth gyfan

Ffocws (Sgil Cwricwlwm) - PCLLA - bod yn ymwybodol o anghenion pobl eraill a'u parchu.

- cymryd cyfrifoldeb am eu gweithrediadau eu hunain.

Sylwadau

- Dangos diddordeb yn y stori
- Deall y stori
- Ymateb yn synhwyrol - hwnna ddim yn neis, mae nhw'n gas, mae e yn dyn neis.
- Ymateb i gwestiynau'n synhwyrol -

Beth sy'n gwneud ffrind da?

Ateb y D.FF - Bod yn neis i ffrindiau a pawb.

Ymateb y D.FF i drafodaeth am pam mae pobl weithiau yn gallu fod yn gas neu'n ddrwg -




"Dim pawb yn fawr yn ysgol eto, plant newydd yn drwg sometimes, they don't know to be good in school"

Trafodaeth ymlaen am rheolau ysgol a sut mae trin ein cyfoedion yn yr ysgol.

D.FF - "we can showo nhw bod yn dda Miss"

Aeth ymlaen i ddweud sut i fod yn dda -

D.FF - " yn y neuadd dim rhedeg a listeno i Mrs Harris yn gwasaneth dojo"


Atodiad 5

Atodiad 6

Dyma ble dwi'n hoffi bod yn yr ysgol.



y tywod



y dwr



y llwyfan



y cafffi

Rhestr Cyfeirnod

Alderson, P. (2008) *Young Children's Rights: Exploring Beliefs, Principle and Practice* (2nd ed.) London: Jessica Kingsley.

Ball, D. L. (1992). Magical hopes: Manipulatives and the reform of math education. *American Educator*, 16, 14-18. Ar gael:

https://www.aft.org/sites/default/files/periodicals/ae_summer1992_ball.pdf Dyddiad 21/5/19

Bates, B. (2019). *Learning theories simplified....and how to apply them to teaching*. 2nd ed. London: Sage publications.

British Educational Research Association. (2018). *Ethical Guidelines for Educational Research*. Ar gael:

https://www.bera.ac.uk/wp-content/uploads/2018/06/BERA-Ethical-Guidelines-for-Educational-Research_4thEdn_2018.pdf?noredirect=1 Dyddiad: 18/5/2019

Canolfan Peniarth. (2015). *Tric a Chlic*. Ar gael:

https://www.canolfanpeniarth.org/tric_a_chlic Dyddiad 28/5/19

Clarke, A. and Moss, P. (2011). *Listening to young children: The Mosaic approach*. 2nd ed. London: NCB.

Cyngor Sir Gar. (2018). *Llais Plentyn*. Ar gael:

<https://www.sirgar.llyw.cymru/cartref/gwasanaethaur-cyngor/addysg-ac-ysgolion/cymorth-i-ddysgwyr/llais-plentyn/#.XO1YBfZFzIU> Dyddiad 19/5/2018

Cyngor y Gweithlu Addysg. (2016-2019). *Moeseg Ymchwil*. Ar gael:

<https://www.ewc.wales/site/index.php/cy/canolbwynt-polisi/ymchwil-ymarferwr/moeseg-ymchwil.html> Dyddiad : 18/5/19

Department for Education. (2018). Use and perception of curriculum support resources in schools. Ar gael:

https://assets.publishing.service.gov.uk/government/uploads/system/uploads/attachment_data/file/722313/Use_and_perceptions_of_curriculum_support_resources_in_schools.pdf Dyddiad 28/5/19

Donaldson, G. (2015) *Successful Futures: Independent Review of Curriculum and Assessment Arrangements in Wales* Crown Copyright available at: <http://gov.wales/topics/educationandskills/schoolshome/curriculum-for-walescurriculum-for-life/why-we-are-changing/successful-futures/?lang=en>

Estyn. (2016). Adroddiad ar [REDACTED]. Ar gael:

<https://www.estyn.llyw.cymru/sites/default/files/documents/Ysgol%20Y%20Felin%20cy.pdf>

Estyn. (2018). Datblygu medrau cymraeg ar gyfer dysgu yn y blynyddoedd cynnar. Ar gael:

<https://www.estyn.llyw.cymru/arfer-ffeithiol/datblygu-medrau-cymraeg-ar-gyfer-dysgu-yn-y-blynyddoedd-cynnar? ga=2.58638122.1494090609.1559156277-1898184830.1536424567> Dyddiad 28.5.19

Estyn. (2016). 'Llais y disgybl' o fudd i ddisgyblion ac yn helpu ysgolion i wella. Ar gael:

<https://www.estyn.gov.wales/news/'pupil-voice'-benefits-pupils-and-helps-schools-improve> Dyddiad: 19/5/2019

Estyn. (2014). Mae plant yn dysgu orau o brofiadau uniongyrchol. Ar gael:

<https://www.estyn.llyw.cymru/arfer-ffeithiol/mae-plant-yn-dysgu-orau-o-brofiadau-uniongyrchol? ga=2.138924851.1494090609.1559156277-1898184830.1536424567> Dyddiad 19/5/2019

LIDDLE, T. (2018). *WHY MOTOR SKILLS MATTER*. [Place of publication not identified]: KOEHLER Books.

Llywodraeth Cymru. (2008). *Arsylwi ar blant*. Ar gael:

<https://learning.gov.wales/docs/learningwales/publications/140828-observing-children-cy.pdf> Dyddiad 18/5/19

Llywodraeth Cymru. (2008). Cwricwlwm Cymru : Fframwaith y Cyfnod Sylfaen. Ar gael:

<https://learning.gov.wales/docs/learningwales/publications/150803-fp-framework-cy.pdf> Dyddiad 18/5/19

Llywodraeth Cymru. (2018). Fy ysgol leol, Ar gael: <http://mylocalschool.wales.gov.uk/School/6692391?lang=en> Dyddiad: 18/5/2019

PCYDDS. (2017-2020). *Cod Ymarfer Moeseg ac Integredd Ymchwil PCYDDS*. Ar gael:

<https://www.uwtsd.ac.uk/media/uwtsd-website/content-assets/documents/academic-office/misc-forms/REICoP-17-20-v3-CYM.pdf> Dyddiad: 18/5/19

Punch, S. (2002) 'Research with Children: The Same or Different From Research With Adults?' *Childhood* 9 (3): 321-341.

Rinaldi, C. (2006). *In dialogue with Reggio Emilia*. Oxon: Routledge.

Talk for writing. (2019). The key to attainment. Ar gael:

<https://www.talk4writing.co.uk/about/> Dyddiad 28/5/2019.

The National Archive, (2018). Ddeddf Diogelu Data (2018). Ar gael:

<http://www.legislation.gov.uk/ukpga/2018/12/contents/enacted> Dyddiad: 18/5/19